Peter Fox OBE AS
Aelod o'r Senedd
Mynwy
—
Member of the Senedd for
Monmouth

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Peter.Fox@Senedd.Cymru
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Peter.Fox@Senedd.Cymru

0300 200 7298
@Peterfox_ms
@PeterFox61
Peter Fox AS

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder
a'r Cyfansoddiad

25 Ionawr 2023

Bil Bwyd (Cymru): Sesiwn graffu Cyfnod 1 gyda'r Gweinidog

Annwyl Huw,

Cyn i mi ymddangos gerbron y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ddydd Llun 30 Ionawr, roeddwn i'n meddwl y gallai fod yn ddefnyddiol i mi roi ymateb ysgrifenedig i nifer o'r pryderon a godwyd gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru yn ystod ei thystiolaeth gyda'r Pwyllgor yr wythnos hon.

Nid yw'r ymateb hwn yn cynnwys yr holl feysydd a gafodd sylw gan y Pwyllgor yn ystod y sesiwn, na'r holl bryderon a godwyd gan y Gweinidog. Fodd bynnag, roedd nifer o'r pryderon a godwyd gan y Gweinidog yn fwy technegol neu fanwl eu natur, ac felly gallai fod yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor gael ymateb manwl ar y cam hwn. Byddaf wrth gwrs yn hapus i drafod unrhyw un o'r meysydd hyn ymhellach pan fyddaf yn bresennol yn y Pwyllgor yr wythnos nesaf.

Mater 1: Mae'r Bil wedi newid yn sylweddol yn ystod ei hynt?

Er y cafwyd rhai newidiadau i'r Bil, nid yw wedi newid yn sylweddol yn ystod ei hynt. Nodais isod sut mae'r Bil wedi newid yn ystod y broses o'i ddatblygu.

Roedd y cynnig cychwynnol 'cyn y balot' yn nodi'r amcanion polisi eang ar gyfer y Bil, ac mae'r rhain yn dal i fod yn berthnasol i'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Ar 17 Tachwedd 2021 trafododd y Senedd a ddylid caniatáu i'r Bil fynd ymlaen i gael ei ddatblygu'n llawn. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.91A, cyhoeddais Femorandwm Esboniadol i gyd-fynd â'r ddadl.[1] Roedd y Memorandwm Esboniadol hwn yn nodi mai'r prif amcanion polisi oedd:

- sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru
- rhoi dyletswydd ar weinidogion Cymru i lunio Strategaeth Fwyd i Gymru

[1] **Memorandwm Esboniadol ar gyfer dadl caniatâd i fwrw ymlaen** – 17 Tachwedd 2021

- cyflwyno Cynlluniau Bwyd Cymunedol
- ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol ar gynhyrchu bwyd
- dod â gwastraff bwyd i ben

Mae'r holl brif amcanion polisi hyn wedi'u cynnwys yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, y tri cyntaf fel rhannau annibynnol o'r Bil, gyda chynhyrchu bwyd lleol a gwastraff bwyd yn cael eu cynnwys o fewn manylion y nodau bwyd.

Ar y pryd, roedd cynnig ychwanegol i gryfhau gofynion labelu bwyd. Fodd bynnag, oherwydd goblygiadau posibl Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 penderfynwyd peidio â chynnwys darpariaethau o'r fath yn y Bil.

Yr unig wahaniaeth sylweddol rhwng y Bil fel y'i cyflwynwyd a'r cynnig a gyflwynwyd i'r Senedd, ac y cytunwyd arno ar 17 Tachwedd 2021, yw bod y Nodau Bwyd a'r targedau cysylltiedig wedi'u cynnwys. Gan fod y Nodau Bwyd eu hunain yn rhoi mecanwaith ar gyfer helpu i gyflawni amcanion polisi'r Bil, nid wyf yn credu bod hyn yn wahanol i'r amcanion polisi a amlinellwyd yn wreiddiol.

Mater 2: Mae'r Bil yn seiliedig ar y Bil Cenedl Bwyd Da (yr Alban).

Yn fyr - nid yw hyn yn wir. Does ond rhaid i chi gymharu testun y Bil Bwyd yn erbyn darpariaethau Deddf Cenedl Bwyd Da (Yr Alban) 2022 ("Deddf yr Alban") i weld, er eu bod yn ymdrin â materion tebyg, eu bod wedi'u drafftio mewn ffyrdd gwahanol iawn, ac yn cynnwys darpariaethau gwahanol iawn.

Enghraifft dda o hyn yw cynnwys nodau bwyd yn y Bil - nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn Neddf yr Alban. Mae'r Gweinidog yn gywir i nodi bod y fframwaith deddfwriaethol rydym yn gweithio ynddo yng Nghymru yn wahanol i'r hyn a geir yn yr Alban. Mae'n deg dweud hefyd, fel y gwelir o'r ffaith bod nodau bwyd cyffredinol wedi'u cynnwys, mai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 y Llywodraeth a ddylanwadodd ar ddatblygiad y Bil Bwyd yn fwy na Deddf yr Alban.

Byddai amseriad y ddau Fil hefyd wedi ei gwneud yn anodd iawn i'r Bil Bwyd fod yn seiliedig ar Ddeddf yr Alban. Cyflwynwyd Bil Cenedl Bwyd Da (yr Alban) i Senedd yr Alban ar 7 Hydref 2021. Cyflwynwyd fy nghynnig cychwynnol (gan gynnwys yr alwad am Gomisiwn Bwyd a strategaethau bwyd) i broses bleidleisio'r Senedd sawl mis cyn i'r Bil hwnnw gael ei gyflwyno.

O ran y ddarpariaeth i sefydlu Comisiwn Bwyd yn benodol, rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod y ddarpariaeth yn Neddf yr Alban sy'n sefydlu Comisiwn Bwyd yr Alban wedi ei mewnosod drwy welliant yn ystod hynt y Bil (cafodd y gwelliant perthnasol ei ystyried ar 11 Mai 2022). Mae sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru wedi bod yn ganolog i'm cynnig ers y cychwyn cyntaf, mae'n ddigon posibl felly mai fy nghynnig i a helpodd i lywio datblygiad Deddf yr Alban.

Mater 3: Cyfnod o 3 mis ar gyfer sefydlu'r Comisiwn Bwyd

Fel y bydd y Pwyllgor yn gwybod, mae'r darpariaethau cychwyn a nodir yn y Bil yn darparu y bydd y Ddeddf yn dod i rym dri mis ar ôl dyddiad y Cydsyniad Brenhinol. Bydd Comisiwn Bwyd Cymru yn cael ei sefydlu fel corff corfforaethol bryd hynny (yn unol ag Adran 8). Yn anffodus, roedd sylwadau'r

Gweinidog ynghylch hyn yn gamarweiniol iawn, ac yn camliwio effaith darpariaethau'r Bil a'r hyn sy'n ofynnol gan y Bil.

Nid yw sefydlu corff statudol yn y gyfraith ar bwynt penodol (yn yr achos hwn dri mis ar ôl Cydsyniad Brenhinol) yr un fath â'i gwneud yn ofynnol i'r corff hwnnw fod wedi'i ffurfio ac yn gwbl weithredol ar yr adeg honno. Nid oes amserlenni o fewn y Bil sy'n nodi pryd mae'n rhaid i'r Comisiwn fod yn weithredol.

Rydw i wedi bod yn glir bob amser, ac roedd cyngor gan y Cwnsler wrth ddrafftio'r Bil hefyd yn glir, y bydd angen i strwythur y Comisiwn fod ar waith yn gynnar iawn gan ei fod yn sail i lawer o ddarpariaethau eraill y Bil. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau'r Comisiwn i gynorthwyo Gweinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus i gyflawni eu gofynion statudol eu hunain.

Fodd bynnag, nid yw'n wir bod angen i'r Comisiwn fod yn gwbl weithredol cyn y gall gwaith ddechrau ar ofynion statudol eraill a nodir yn y Bil megis datblygu'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol neu dargedau'r nodau bwyd. Mae'n anochel y bydd cyfnod lle bydd gwaith i fodloni gofynion statudol a gwaith i sicrhau bod y Comisiwn yn gwbl weithredol yn gorgyffwrdd. Rwy'n hyderus y gellir cyflawni hynny i gyd o fewn y terfynau amser a nodir yn y Bil.

Mater 4: Swyddogaethau'n gorgyffwrdd â rhai'r Asiantaeth Safonau Bwyd

Mae'r Gweinidog wedi lleisio pryderon ynghylch y posibilrwydd o swyddogaethau'n gorgyffwrdd o ran y rhai a nodir yn y Bil ar gyfer Comisiwn Bwyd Cymru a rhai'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae hyn yn rhywbeth a gafodd ei ystyried yn ofalus yn ystod o broses o ddrafftio'r Bil, ac nid wyf yn credu bod gorgyffwrdd o'r fath yn bodoli.

Mae swyddogaethau'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi'u nodi yn Neddf Safonau Bwyd 1999 ("Deddf 1999").[2]. Mae'r swyddogaethau hyn yn weddol helaeth, ond maent hefyd yn benodol iawn yn y rhan fwyaf o feysydd, ac yn canolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar feysydd fel diogelwch a safonau bwyd. Mae eu *swyddogaethau cyffredinol o ran bwyd* (Adrannau 6 i 8 o Ddeddf 1999) yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd neu fuddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Mae'r Nodiadau Esboniadol ar gyfer Deddf 1999 yn esbonio ymhellach bod y cyngor, y wybodaeth a'r cymorth y mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd y swyddogaeth o'u darparu yn ymwneud â gwella diogelwch a safonau bwyd. Am y rheswm hwn, nid wyf yn credu bod y rhain yn gorgyffwrdd â swyddogaethau arfaethedig y Comisiwn Bwyd fel y nodir yn adran 10 o'r Bil, lle nad yw diogelwch bwyd yn ymddangos.

Fel y gwyddoch, roedd y Bil Bwyd (Cymru) drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol, ac ni chawsom ymateb gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn nodi pryderon yn y maes hwn (neu unrhyw gyswllt ers hynny). Wrth gwrs, byddwn yn hapus iawn i weithio'n uniongyrchol gyda'r Asiantaeth i ystyried unrhyw bryderon sydd ganddynt mewn perthynas â'r Bil yn gyffredinol, ond yn fwy penodol mewn perthynas â swyddogaethau'r Comisiwn Bwyd.

[2] **Deddf Diogelwch Bwyd 1999**

Yn fwy cyffredinol, roedd yn siomedig nad oedd y Gweinidog wedi ymgysylltu â manylion y Bil yn ôl pob golwg. Er fy mod yn llwyr werthfawrogi mai 'nid ei Bil hi' ydyw, bydd gan y Bil Bwyd oblygiadau mawr i Weinidogion Cymru pe bai'n llwyddo i gael cefnogaeth y Senedd i fod yn Ddeddf Senedd Cymru.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gyda'r Gweinidog a chydag Aelodau ar draws y Senedd wrth i'r Bil fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol.

Yn gywir,

Peter Fox, AS Mynwy